

DOLEN Y TAB – 24

1–2 Hydref 2020

OEDFA DYDD SUL 4 HYDREF

Yng ngofal Gwenfil Thomas, Helen Middleton, Wyn Jones a Glenys Roberts, ynghyd â cherddoriaeth o archif sylweddol Penri Williams.

OEDFAON MIS HYDREF

11 Hydref

Oedfa Diolchgarwch yng ngofal Huw, Beth a Wendy.

18 Hydref

Oedfa Deuluol.

25 Hydref

Y Parchg. Gethin Rhys.

Cofiwch hefyd y Sul yma am . . .

10.30 Oedfa Ddigidol yr Undeb dan ofal Fiona Gannon

annibynwyr.org a *You Tube*.

12.00 Oedfa Radio Cymru gyda Sara Liss, Jerwsalem, cyn-ddisgybl yn Ysgol Plasmawr.

12.30 Radio Cymru *Bwrw Golwg* gyda John Roberts.

E-fwletin Cristnogaeth21 newydd i'w weld bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru.

OEDFAON AR-LEIN

Os oes unrhyw un yn barod i gymryd gofal am baratoi oedfa, cysylltwch ag un o'r ddau isod:

Emlyn (emlyn.pentyrch@btinternet.com)
02920 891344, neu

Geraint (geraintrees@hotmail.com)
07816 341527.

Hefyd, os oes yna deulu neu unigolion fyddai'n hoffi cyfrannu at oedfa ar-lein, byddai Emlyn a Geraint yn falch o glywed gennyh.

AROLWG AR AIL-AGOR

Cafwyd ymateb da iawn i'r arolwg a gynhaliwyd dros yr wythnos a aeth heibio – diolch i bawb aeth i'r drafferth i lenwi a dychwelyd yr holiadur. Dros y Sul caiff y data ei ddadansoddi cyn ei gyflwyno i aelodau'r Bwrdd yn eu cyfarfod rhithiol nos Fawrth 6 Hydref. Gobeithir gyhoeddi'r canlyniadau ac ymateb y Bwrdd yn *Dolen y Tab* yr wythnos nesaf.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd
Nos Fawrth 6 Hydref.

Os oes unrhyw fater yr hoffech ei godi, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd, Gwilym Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205 / 07710 237327) erbyn nos Lun 5 Hydref fan bellaf.

ELUSENNAU 2020

Y tro hwn rydym am dynnu sylw at y drydedd o'r pedair elusen fydd yn rhannu'r swm a godir trwy gasgliad yr amlenni brown yn 2020, sef:

CYMORTH I FERCHED CYMRU

Mae'r elusen hon yn gweithio i ddileu trais yn y cartref a phob math o drais yn erbyn menywod, ac yn darparu cymorth emosiynol ac ymarferol i fenywod a phlant sydd wedi neu sydd yn dioddef unrhyw fath o gamdriniaeth, a llety dros dro diogel pan fo angen. Mae'r gwasanaeth yn gyfrinachol, yn anfeiriadol, ac am ddim.

Bydd y casgliad yn dilyn yr un drefn â chasgliadau eraill eleni, sef:

Anfon siec yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf, gan nodi 'Elusennau 2020', at:

Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU

neu trwy drosglwyddiad banc:

Cod didoli 30-96-72
Rhif cyfrif 03607499
gan gynnwys eich enw a nodi 'Elusennau 2020'.

DS Y tair elusen arall fydd yn rhannu'r casgliad fydd Gofalwyr Ifanc RhCT, Ysgol Tŷ Coch a Cwtch.

ARWR ANGOF

Yn rhifyn mis Hydref o'r cylchgawn *Barn* ceir ysgrif ddadlennol iawn yn dwyn y teitl 'Dr Gwenan – yr arloeswraig wlatgarol' gan Nerys Ann Jones. Er bod awdur yr ysgrif bellach yn gwasanaethu fel offeiriad yn Eglwys y Santes Fair, Dunblane (cangen o Eglwys Esgobol yr Alban), tref sy'n gartref iddi ers dros ddeng mlynedd ar hugain, cafodd Nerys ei magu ym mhentref Bow Street, Ceredigion yn y 1960au a'r 1970au. Yno y daeth i wybod gyntaf am gyfraniad Dr Gwenan Jones i fywyd Cymru, gan fod Dr Gwenan yn un o gyd-aelodau Nerys a'i theulu yng nghapel y Garn. Er mai barddoniaeth Gymraeg yr oesoedd canol oedd prif faes gyrfa academiaidd Nerys, a hynny'n bennaf yn Adran Geltaidd Prifysgol Caeredin, mae hi hefyd wedi parhau i ymddiddori yn niwylant ardal ei phlentynod.

Ymhlith y diddordebau hyn roedd ymchwilio i hanes bywyd a chyfraniad Dr Gwenan Jones a oedd yn ffigur mor amlwg ym myd addysg, gwleidyddiaeth a diwylliant Cymru'n gyffredinol, yn arbennig felly yn ystod y 1940au a'r 1950au. Wrth ddysgu mwy am ei chefnidir cynnar, ei mentergarwch, a'r gwerthoedd hynny roedd hi'n fodlon brwydro mor ddygn drostynt, does dim rhyfedd bod Nerys yn ei gweld fel person sy'n gwbl deilwng o gael ei chydnabod fel un o arwyr Cymru'r ugeinfed ganrif.



Ganed Gwenan ym mis Tachwedd 1889 i fam sengl, a chan bod ei mam wedi cael ei diarddel gan gynulleidfa Capel Talybont, Rhyduchaf, Y Bala am eni plentyn y tu allan i briodas, y Parchedig Michael D. Jones a'i bedyddiodd. Mae'n anodd i ni heddiw ddirnad y diffyg tosturi a welid ymhlith diaconiaid rhai o gapeli'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond nid oedd yr agweddau mewn rhai capeli yng nghefn gwlad Cymru wedi newid hyd yn oed yn niwedd y 1960au. Cafodd Gwenan fagwraeth arbennig iawn gyda'i nain, Gwen Jones, ar waetha'r ffaith ei bod hi'n wraig weddw oedd â chyfrifoldeb am redeg fferm fynyddig. Wedi iddi ddangos addewid gynnar yn y Bala County School for Girls, cafodd Gwenan ei derbyn i ddilyn cwrs gradd yn y brifysgol yn Aberystwyth yn 1906.

Ar ôl graddio, penodwyd hi i'w swydd gyntaf fel athrawes Cymraeg a Saesneg yn y County School for Girls, Pont-y-pŵl, lle yn ystod ei horiau 'hamdden' bu'n cynorthwyo'r Parchedig Watkin Williams yn ei waith dyngarol gyda phlant a phobl ifanc ddfreintiedig y dref, gan roi ar waith yr Efengyl Gymdeithasol y clywsai amdani tra oedd yn fyfyrwr. Trwy gydol ei bywyd, glynodd Gwenan yn ffyddlon at bwysigrwydd gweithredu ei daliadau Cristnogol mewn dull ymarferol. Un enghraifft nodedig o hyn oedd iddi, flynyddoedd yn ddiweddarach, gynnig lloches yn ei chartref yn Llandre i fam ifanc a'i mab oedd yn ffoaduriaid o Latfia ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd.

Yn 1914, enillodd ysgoloriaeth i astudio am radd uwch yn UDA ar ddramâu Cymraeg, Cernyweg a Saesneg o'r oesoedd canol. Ar ôl iddi ennill ei doethuriaeth treuliodd ddwy flynedd fel athrawes Saesneg mewn coleg yn Columbia, Missouri, cyn dychwelyd i Gymru yn 1920 i swydd darlithydd cynorthwyol yn Adran Addysg Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth; bu ar y staff yno hyd ei hymddeoliad ar ddechrau'r 1960au.

Ymunodd â'r mudiad heddwch Cristnogol, Urdd y Deyrnas, yn fuan wedi iddo gael ei sefydlu yn 1922; bu'n flaenllaw iawn yng ngweithgareddau'r mudiad am dros ddeng mlynedd ar hugain, gan wasanaethu yn ei thro fel Cadeirydd ac Ysgrifennydd, ac fel golygydd cylchgrawn y mudiad, *Yr Efrogdydd*.

Hi hefyd oedd y ferch gyntaf i sefyll fel ymgeisydd yn enw Plaid Cymru mewn etholiad seneddol yn etholaeth Prifysgol Cymru yn 1945 gan ennill 25% o'r bleidlais.

Cyfrannodd yn helaeth iawn i fyd addysg yng Nghymru ac i addysg Gymraeg, nid yn unig fel darlithydd ysbrydoledig ond hefyd fel Llywydd cyntaf UCAC; yn ogystal, bu'n cyfrannu i gyhoeddiadau megis Ysgolion y Cymry (1942) a'r Polisi Addysg i Gymru (1941).

Bu farw ym mis Ionawr 1971 ac fe'i claddwyd ym mynwent Capel Talybont, Rhyduchaf, Y Bala yng nghwmni'r 'saint' oedd wedi gwrthod iddi gael ei bedyddio'n faban y tu mewn i furiau'r capel.

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** a sefydlwyd yn ystod y cyfnod clo i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.*

Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol at:
gehpenqwert@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.